Senedd Cymru / Welsh Parliament
**Swyddfa Breifat y Llywydd / Llywydd's Private Office**

# Cawcws Menywod y Senedd

## Y Chweched Senedd

Chwefror 2026

Lansiwyd Cawcws Menywod y Senedd yn swyddogol ym mis Mehefin 2023, ac mae'n cael ei gadeirio gan Joyce Watson AS. Mae grŵp llywio y Cawcws yn cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp. Mae pob Aelod benywaidd o'r Senedd yn aelodau o'r Cawcws, yn ddiofyn, ac mae cymorth ysgrifenyddol yn cael ei ddarparu gan Swyddfa Breifat y Llywydd, lle bo hynny'n briodol.

### Ein gweledigaeth

Cymru sy'n gyfartal o ran y rhywiau ac yn gwbl gynhwysol, lle:

- mae pawb yn cael eu grymuso i ymgysylltu â gwleidyddiaeth (fel dinasyddion ac fel cynrychiolwyr etholedig) waeth beth fo'u rhywedd a'u nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys statws economaidd-gymdeithasol, ac
- mae polisïau, cyfreithiau, rhaglenni a chyllidebau wedi'u cynllunio i fod yn sensitif i anghenion a phrofiadau amrywiol y boblogaeth.

### Ein cenhadaeth

Dod ag Aelodau benywaidd o'r Senedd at ei gilydd o bob plaid wleidyddol er mwyn:

▪ gweithio'n bwrpasol i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth a nodi'r rhwystrau presennol o fewn ein system seneddol.

▪ datblygu a hyrwyddo polisi ac ymarfer sy'n mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ein seneddwyr benywaidd a'n cymdeithas.

▪ bwrw ymlaen ag agenda'r Cawcws y cytunwyd arni o fewn pleidiau gwleidyddol a meysydd dylanwad eraill y Senedd.

# Cynnwys

**1. Myfyrdodau'r Cadeirydd ... 4**

**2. Meetings and Activity ... 5**

Cyfarfodydd Llywodraeth, a Chefnogaeth ... 5

Trosolwg o'n gweithgareddau ... 6

2022-2024 ... 6

2025 ... 6

2026 ... 9

**3. Ymgysylltu Rhyngwladol ... 10**

**4. Edrych ymlaen ... 11**

# 1. Myfyrdodau’r Cadeirydd

Er iddi gael ei sefydlu yn y tymor seneddol presennol hwn, mae’n rhyfeddol sut mae Cawcws Menywod y Senedd wedi sefydlu ei hun fel fforwm ar gyfer cymorth cymheiriaid ac ymgysylltu ag aelodau benywaidd, yn ogystal â datblygu a hyrwyddo ei flaenoriaethau ei hun. Rwy'n falch o'r gwaith y mae'r Cawcws wedi'i wneud mewn cyfnod mor fyr o amser, sut rydym wedi ymgysylltu â phartneriaid allanol a swyddogion y Senedd, ac wedi dod at ein gilydd fel menywod etholedig i gefnogi ein gilydd.

Mae'r Cawcws wedi profi bod yna gwerth i greu gofodau ar gyfer lleisiau menywod ac rwy'n falch ein bod wedi cynnal 11 cyfarfod ffurfiol yn y 6ed Senedd hon i drafod ystod o faterion o ymgysylltu rhyngwladol i ddeddfwriaeth. Mae hefyd wedi galluogi i ni weithio’n drawsbleidiol gan ganiatáu i aelodau ddod at ei gilydd ar draws y rhaniad gwleidyddol a chytuno ar ffyrdd ymlaen ac, yn arbennig, cynigion trawsbleidiol ar faterion pwysig fel Diwrnod Rhyngwladol y Menywod y llynedd. Eiliad gwirioneddol gofiadwy i mi oedd partneriaeth ag Elect-Her ar gyfer ein Digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Lle i Ni, yn 2024 lle croesawodd y Senedd fenywod o bob cefndir a oedd yn ddechrau ar eu taith wleidyddol. Roedd yn siarad â'n cenhadaeth i gefnogi cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth ac yn fy ngwneud yn obeithiol am ddyfodol gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Wrth sefydlu Cawcws y Menywod, roeddwn i eisiau sicrhau bod menywod etholedig yn y Senedd hon yn cael lle i gyfarfod, i siarad, i fod yn onest â'i gilydd. Yn gyntaf oll, mae'r Cawcws wedi profi ei hun fel fforwm diogel a chroesawgar ac mae'r gefnogaeth yr ydym wedi gallu ei darparu i'n gilydd wedi bod, yn fy marn i, amhrisiadwy.

Rwy'n falch o fod wedi cadeirio'r Cawcws yn ei dymor cyntaf ac edrychaf ymlaen at ddilyn ei waith yn y 7fed Senedd. Mae oherwydd ymrwymiad ein haelodaeth yr ydym wedi bod mor llwyddiannus, ac rwy'n gobeithio y bydd aelodau o'r Senedd hon yn parhau i gefnogi Cawcws Menywod yn yr un modd. Gyda diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch cyfraniadau parhaus.

Joyce Watson.

# 2. Cyfarfodydd a Gweithgareddau

## Cyfarfodydd Llywodraeth, a Chefnogaeth

**1.** Mae'r Cawcws yn cael ei gadeirio gan Joyce Watson AS a grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau gwleidyddol. Dewiswyd y grŵp llywio hwn o aelodau sydd eisoes yn ymwneud â rhwydwaith seneddol menywod arall, Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad (CWP).

**2.** Cyn ei lansiaid swyddogol, cytunodd y Cawcws ar gylch gorchwyl a datganiad cenhadaeth i lunio ei waith yn y dyfodol. Yn ei gylch gorchwyl, ymrwymodd y Cawcws i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fyfyrio ar ei weithgareddau. Yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau ac ymweliadau, mae'r Cawcws hefyd yn cyfarfod yn breifat i ddarparu cymorth ac i rannu diweddariadau a chyfleoedd sy'n codi. Mae ymrwymiad personol yr Aelodau i'r Cawcws wedi sicrhau bod ei gyfarfodydd a'i ddigwyddiadau wedi cael eu mynychu'n dda a'u cefnogi ar draws y pleidiau gwleidyddol.

**3.** Darperir cymorth ysgrifenyddol gan Swyddfa Breifat y Llywydd, ond ar weithgareddau mwy gwleidyddol neu bolisi (megis darparu tystiolaeth i Bwyllgorau) mae'r Cadeirydd ac aelodau eraill hefyd wedi derbyn cefnogaeth gan eu grwpiau.

**4.** Mae'r ysgrifenyddiaeth, yn ogystal â chynnull y Cawcws ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, yn dosbarthu cyfleoedd ac adnoddau i'r Cawcws gan gynnwys adnoddau dysgu, llenyddiaeth berthnasol, a chyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**5.** Ers ei sefydlu, mae'r Cawcws wedi cyfarfod yn ffurfiol 11 o weithiau. Yn 2025-26 cyfarfu'n ffurfiol 7 gwaith, gyda nifer o'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar weithgarwch cyfryngau cymdeithasol a'r cynnig o gynllun monitro ar gyfer Aelodau'r Senedd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn arbennig yn cynnwys rhanddeiliaid o'r Heddluoedd a swyddogion y Senedd i drafod dichonoldeb a chynlluniau ar gyfer cynllun monitro. Ym Mawrth 2026 mae cynllun treial ar waith.

**6.** Mae cyfarfodydd anffurfiol hefyd wedi'u cynnal, gyda'r Cawcws yn croesawu siaradwyr gwadd i annerch aelodau dros swper.

**7.** Mae aelodau'r Cawcws wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu yn rhyngwladol ac wedi mynychu digwyddiadau yn y Senedd yn ystod y tymor hon. Mae cyfraniadau i Gynadleddau Seneddol Benywaidd y Gymanwlad a digwyddiadau

a gynhelir gan Cawcysau Seneddol eraill wedi cael derbyniad da. Mae cyfraniadau at ddigwyddiadau ymgysylltu yn y Senedd hefyd wedi codi proffil y Cawcws ac wedi galluogi aelodau i ymgysylltu â menywod ledled Cymru.

## Trosolwg o'n gweithgareddau

### 2022-2024

**8.** Cyn ei lansio swyddogol yn 2023, cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Cawcws i gytuno ar ei weledigaeth, cenhadaeth a thelerau'r cylch gorchwyl.

**9.** Yn ei flwyddyn gyntaf, cymerodd y Cawcws ran mewn a chynhaliodd nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus ar ystâd y Senedd. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiad bord gron gydag ysgolion lleol i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a'r digwyddiad blaenllaw Lle i Ni a gynhaliwyd ochr yn ochr â WEN Wales a welodd y Senedd a'r Siambr yn llawn gwleidyddion benywaidd y dyfodol.

**10.** Yn 2024 bu'r Cawcws hefyd yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Bil Diwygio'r Senedd fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

**11.** Bu'r Cawcws hefyd yn gwahodd y Prif Weinidog, y Trefnydd a'u swyddogion i gyfarfod er mwyn cyflwyno'u cynlluniau arfaethedig ar gyfer canllawiau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru. Roedd hyn yn gyfle i Aelodau lleisio'u barn nhw a'u pleidiau ar yr amseru a chynnwys arfaethedig. Yn dilyn y Cyfarfod hwn, gwahoddir aelodau'r Cawcws i sesiwn briffio technegol gan swyddogion ar y canllawiau cyn cyfnod ymgynghori'r Llywodraeth.

### 2025

**12.** Mis Ionawr Cadeirydd y Cawcws, Joyce Watson AS, yn annerch digwyddiad ar-lein Elect-Her ar gyfer darpar ymgeiswyr benywaidd a rheini sydd â diddordeb mewn sefyll etholiad ar bob lefel o ddemocratiaeth.

**13.** Chwefror Cyfarfod o'r Cawcws i drafod pryderon penodol y mae Aelodau yn wynebu fel menywod mewn bywyd cyhoeddus. Mynychodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd, y tîm diogelwch, a thîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau'r cyfarfod hwnnw.




**14.** Mawrth Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – Digwyddiad ‘Ysbrydoli Hi yn y Senedd’ gydag Elect-Her

Roedd Inspire Her yn sesiwn a oedd yn cynnig cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i fenywod ifanc â diddordeb mewn gwleidyddiaeth, i’w hannog nhw i fod yn ymgyrchwyr ac arweinwyr y dyfodol. Croesawyd menywod ifanc i’r Senedd i gymryd rhan mewn digwyddiad rhwydweithio cyflym ac i gysylltu gydag aelodau etholedig trwy drafodaethau 1:1 ac mewn grwpiau bach. Bu’n gyfle i’r menywod lleisio’u barn ar yr hyn sydd o bwys iddyn nhw, a chlywed am brofiadau o sefyll etholiad ac o fywyd yn y Senedd.



**15.** Mehefin Cyflwyniad gan y Jo Cox Foundation ar adroddiad y Jo Cox Civility Commission sy'n anelu at fynd i'r afael â'r broblem o drais, cam-drin, a dychryn yn erbyn aelodau etholedig, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu argymhellion ar gyfer deddfwrfeydd datganoledig. Roedd mewnbwn o'r Cyfarfod hwn yn bwydo mewn i adroddiad y Jo Cox Civility Commission, "A Renewed Call for Devolved Legislatures".

**16.** Gorffennaf Cyfarfod o'r Cawcws i drafod Materion a godwyd gan aelodau ynghylch cynnydd mewn cam-drin ar-lein ac ar y cyfryngau Cymdeithasol. Bu'r Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Diogelwch y Senedd a'r Uned Heddlu yn mynychu. Codwyd cwestiynau am y broses adrodd ar achosion o gam-drin a sut mae hynny'n cael ei gydlynu rhwng adrannau gwahanol o'r Comisiwn a'r heddlu.

**17.** Joyce Watson AS yn ysgrifennu at y Llywydd i ofyn a fyddai'r Comisiwn yn ystyried gweithredu cynllun monitro cyfrifon cyfryngau Cymdeithasol aelodau o'r Senedd. Gwnaed cais i'r mater hwn gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

**18.** Medi Treial ar gyfer Cynllun Monitro Cyfryngau Cymdeithasol yn cael ei gyflwyno gan dîm diogelwch y Senedd. Cyngor diogelwch ar ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn cael ei rannu gyda'r Cawcws. Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru yn rhoi cyngor ar sut i adrodd achosion i'r heddlu a'r trothwy ar gyfer adrodd. Cynllun treial bellach yn ei le nes diddymiad y 6ed Senedd.

**19.** Tachwedd Swper ar gyfer aelodau'r Cawcws gyda siaradwr gwadd, Ruth Dodsworth OBE.



**2026**

**20.** Ionawr Cyfarfod o'r Cawcws gyda Dr Alison Parker, Dr Rachel Minto a Leah Hibbs o Brifysgol Caerdydd, y tîm ymchwil academaidd a gomisiynwyd gan Fwrdd Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd. Cafwyd trafodaeth er mwyn deall yn well y ffyrdd mae'r Senedd yn ystyried cydraddoldeb rhywiol wrth greu deddfwriaeth, gan gynnwys yr heriau sy'n gwynebu aelodau o'r Senedd, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn eu gwaith.

**21.** Chwefror Aelodau o'r Cawcws yn mynychu digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a gynhelir gan Cawcws Menywod Cynulliad Gogledd Iwerddon Thema'r digwyddiad oedd Cefnogi Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Mynychodd Joyce Watson AS, Siân Gwenllian AS, Julie Morgan AS, Rhianon Passmore AS, a Jenny Rathbone AS.

**22.** Mawrth Gwahoddwyd Cadeirydd y Cawcws i fynychu lansiad Cawcws Menywod Cynulliad Jersey ac i fyfyrio ar brofiadau y Cawcws yma yng Nghymru.

# 3. Ymgysylltu Rhyngwladol

**23.** Cynhadledd CWP, Malta, Mawrth 2024 – Rhianon Passmore AS a Janet Finch-Saunders AS yn cynrychioli'r Senedd.

**24.** Y Cawcws yn cwrdd gyda dirprwyaethau o Senedd Ffederal Canada a'r Assemblée Nationale du Quebec fel rhan o'u ymweliadau swyddogol i'r Senedd.

**25.** Cynhadledd CWP, Caeredin, Mawrth 2025 - Natasha Asghar AS, Rhianon Passmore AS, a Sioned Williams AS yn cynrychioli'r Senedd

**26.** Gweithdy CWP, Nassau, Ebrill 2025 – Sioned Williams AS yn cynrychioli'r Senedd.

**27.** Cynhadledd CWP, Belfast, Chwefror 2026 - Rhianon Passmore AS a Sioned Williams AS yn cynrychioli'r Senedd

**28.** Digwyddiad Cawcws Menywod Cynulliad Gogledd Iwerddon, Belfast, Chwefror 2026 - Joyce Watson AS, Siân Gwenllian AS, Julie Morgan AS, Rhianon Passmore AS a Jenny Rathbone AS yn mynychu digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar thema Cefnogi Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus



# 4. Edrych ymlaen

Mae'r Cawcws yn ei bresennol wedd yn awyddus bod yna Gawcws yn cael ei sefydlu yn gynnar yn y 7fed Senedd er mwyn parhau gyda'r gwaith a dechreuwyd yn y tymor yma. Yn ei gyfarfod olaf, cytunodd y Cawcws ar rai ystyriaethau ar gyfer y 7fed Senedd. Mae'n bosib y bydd Cawcws newydd yn dymuno:

- Parhau i fonitro datblygiadau ar gyfer creche yn y 7fed Senedd
- Parhau i fonitro datblygiad y cynllun monitro cyfryngau cymdeithasol i aelodau
- Nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (8 Mawrth) a Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Menywod (25 Tachwedd)
- Ystyried unrhyw ddatblygiadau ar argymhellion yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol
- Gwneud yr achos am adnoddau digonol i gefnogi'r Cawcws a'i weithgareddau